# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

**Y Cynghorydd Neelo Farr**

**Ward: Canol Dwyrain Porthcawl**

**Plaid: Llafur Cymru**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mai 2023**.** Fe'i darperir er gwybodaeth i bob etholwr ac nid at unrhyw ddiben arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Canol Dwyrain Porthcawl ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n Aelod Cabinet dros Adfywio. Mae fy mhresenoldeb yng nghyfarfodydd y cyngor wedi bod yn 90%, rwyf wedi colli 3 chyfarfod ond wedi cyflwyno fy ymddiheuriadau.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi 34 o ymholiadau cyfansoddol yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych chi wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf fi wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward yn cael ei chynnal.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth drwy ddefnyddio'r ddolen hon:

Y Cynghorydd Neelo Farr - Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Gweithgarwch yn yr Etholaeth**

Rwyf wedi mynychu cyfarfodydd Pact yn ogystal â Fforwm Shout Porthcawl sy'n fforwm i bobl dros 50 mlwydd oed.

Rwyf hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Bartneriaeth Arfordirol.

Rwyf wedi mynychu digwyddiadau eraill a gynhaliwyd ym Mhorthcawl i sicrhau bod ward Canol Dwyrain Porthcawl yn cael ei chynrychioli.

Rwyf wedi cwrdd â swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gyda'm cydweithiwr y Cynghorydd Walter, i drafod croesfan bosibl ar Heol Newton Nottage. Rwyf hefyd wedi siarad yng Nghyngor Tref Porthcawl ac wedi gofyn iddynt ystyried cyllid rhannol tuag at y groesfan.

| |
|---|
| Rwyf wedi cyflwyno atgyfeiriadau ynghylch tyllau yn y ffordd, rheoli traffig, iechyd a diogelwch, materion digartrefedd, a materion iechyd meddwl. Rwyf wedi cyflwyno atgyfeiriad i gefnogi Ysgol Gynradd Porthcawl gydag atgyweiriadau a chynnal a chadw. Rwyf wedi cyfeirio sawl unigolyn at Gyflogadwyedd i gael cymorth i sefydlu eu busnes eu hunain. |
| **Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**<br><br>Fel aelod o'r cabinet rwyf wedi bod yn rhan o ymgynghoriadau mewn perthynas ag adfywio Porthcawl, mannau agored, Aldi, Metro Link, datblygiad Cosy Corner a Phafiliwn y Grand. |
| **Gweithgareddau/Materion Eraill**<br><br>Rwyf wedi cyfarfod â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol yn rheolaidd i fynd i'r afael ag unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ogystal ag unrhyw faterion a godwyd gan drigolion sy'n dod o dan gylch gwaith yr heddlu. |
| **Cynghorydd: Neelo Farr Dyddiad: 03/07/2023** |